Dŵr Cymru
Welsh Water

# Atodiad Dŵr Cymru i God Ymarfer Cyffredinol WIRSAE

dwrcymru.com

# Atodiad Dŵr Cymru Cyfyngedig i God Ymarfer Cyffredinol WIRSAE

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2
2. Gofynion Cyffredinol .......... 2
2.1 Amseriad y gwaith .......... 2
2.2 Eithriadau .......... 2
2.3 Difrod i gyfarpar Dŵr Cymru .......... 3
2.4 Rhwymedigaethau .......... 3
3. Atodiad Gweithgareddau Datgysylltu ac Ailgysylltu Dros Dro .......... 3
3.1 Datgysylltu Dros Dro .......... 3
3.2 Ailgysylltu .......... 3

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio gofynion penodol Cod Ymarfer Dŵr Cymru ar gyfer darparwyr Endidau Achrededig (AE) o dan Gynllun Cofrestru'r Diwydiant Dŵr - Endidau Achrededig (WIRSAE). Rhaid i AE lofnodi Cytundeb Dŵr Cymru sy'n cadarnhau y byddan nhw'n cydymffurfio ag Atodiad Dŵr Cymru cyn y gellir caniatáu iddynt gyflawni unrhyw weithgareddau o dan y cynllun. Cysylltwch â'n Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu yn wholesaleservicecentre@dwrcymru.com neu ar 0800 260 5053 os oes unrhyw gwestiynau gennych.

## 2. Gofynion Cyffredinol

### 2.1 Amseriad y gwaith

Ni chaniateir i AE gyflawni datgysylltiadau o fewn ardal Dŵr Cymru:

- cyn 8am yn ystod yr wythnos;
- ar ôl 3pm dydd Llun i ddydd Iau;
- ar ôl 12pm dydd Gwener;
- ar benwythnosau neu wyliau cyhoeddus, neu ar ddiwrnodau busnes yn union cyn gwyliau banc.

O leiaf 1 awr cyn cyflawni unrhyw ddatgysylltiad neu ailgysylltiad dros dro, rhaid i'r AE hysbysu Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu Dŵr Cymru am gyfeiriad y safle a manylion cyswllt y person a fydd yn cyflawni'r gwaith.

### 2.2 Eithriadau

Nid oes awdurdod gan AE i weithredu falfiau rhwydwaith Dŵr Cymru, gweithio ar unrhyw brif bibellau neu fesuryddion sy'n eiddo i Ddŵr Cymru, na tharfu ar drosglwyddiad gwybodaeth i gofnodwr data.

### 2.3 Difrod i gyfarpar Dŵr Cymru

Os yw AE yn achosi difrod i unrhyw un o asedau Dŵr Cymru wrth gyflawni unrhyw weithgareddau, dylai'r AE gysylltu â Chanolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu Dŵr Cymru ar unwaith. Bydd Dŵr Cymru yn cywiro'r difrod ac yn codi tâl ar yr AE am y costau yn unol â'i Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu.

### 2.4 Rhwymedigaethau

Bydd yr AE yn indemnio Dŵr Cymru yn erbyn unrhyw hawliad neu weithredu gan drydydd parti, ac unrhyw atebolrwydd am dorri unrhyw reolau, rheoliadau, codau, codau ymarfer neu is-ddeddfau sy'n deillio o unrhyw fethiant ar ran yr AE i gyflawni gwaith yn unol â'r atodiad hwn. Nid yw Dŵr Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion y mae'r Adwerthwr neu'r AE yn eu cronni wrth gyflawni unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r atodiad yma.

## 3. Atodiad Gweithgareddau Datgysylltu ac Ailgysylltu Dros Dro

### 3.1 Datgysylltu Dros Dro

Os yw'r datgysylltiad yn effeithio ar gwsmeriaid eraill Dŵr Cymru, rhaid i'r AE gyflawni ailgysylltiad brys cyn pen 2 awr. Os nad yw'r AE yn gallu cyflawni'r ailgysylltiad o fewn yr amserlen yma, rhaid iddynt hysbysu Dŵr Cymru cyn pen 1 awr ar ôl y datgysylltiad, a bydd Dŵr Cymru'n ailgysylltu'r cyflenwad ac yn codi tâl ar yr AE am y gost.

### 3.2 Ailgysylltu

Os yw'r datgysylltiad yn mynd yn ei flaen a bod hynny'n effeithio ar gwsmeriaid eraill, rhaid i'r AE gyflawni ailgysylltiad brys cyn pen 2 awr. Os na all yr AE gyflawni'r ailgysylltiad o fewn yr amserlen yma, rhaid iddynt hysbysu Dŵr Cymru cyn pen 1 awr ar ôl y datgysylltiad. Bydd Dŵr Cymru'n ailgysylltu'r cyflenwad ac yn codi tâl ar yr AE am y gost.